

GWASANAETH YSGOL UWCHRADD: DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST 2018

11 oed a hŷn



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

Yr Holocost a stori bywyd Henry Wermuth

Athrawon, a wnewch chi nodi bod y gwasanaeth hwn yn addas ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5. Nid ydym wedi paratoi gwasanaethau gwahanol ar gyfer grwpiau oedran gwahanol ar lefel uwchradd er mwyn rhoi hyblygrwydd i chi gyfleu'r neges i amrywiol fathau o grwpiau gwasanaeth ar 27 Ionawr 2018, neu tua'r adeg honno, fel y bo'n addas i'ch ysgol a'ch anghenion chi.

Rydym wedi darparu sgript ynghyd â chyflwyniad PowerPoint er mwyn helpu athrawon i gyflwyno gwybodaeth a negeseuon allweddol yn ôl y gofyn. Mae croeso i chi addasu a newid yr iaith a'r cynnwys yn unol ag anghenion eich myfyrwyr chi'ch hun.

Cynnwys myfyrwyr yn y gwasanaeth

Gellid gofyn i sawl myfyriwr gymryd rhan ar y cyd â'r athro i ddarllen y sgript a ddarparwyd gennym isod.

Drama

Rydym yn adrodd stori bywyd Henry Wermuth yn y gwasanaeth hwn, ac mae hefyd yn cael sylw yn ein cynllun gwers drama. Cyn y gwasanaeth, gallech weithio gyda rhai myfyrwyr i gyflwyno rhannau o stori Henry ar ffurf golygfeydd wedi'u perfformio, neu drwy ffyrdd creadigol eraill o adrodd ei stori.

Mae'r adnodd drama ar gael yn hmd.org.uk/educators.

Barddoniaeth

Rydym wedi cynnwys cerdd a all gael ei hadrodd neu ei chwarae fel recordiad yn ystod eich gwasanaeth. I gael y recordiad ewch i: hmd.org.uk/thebutterfly.

Rydym wedi darparu rhagor o gerddi y gallwch ddewis o'u plith yn ein gweithgarwch ystafell ddosbarth ar Farddoniaeth. Gallai myfyrwyr eu hastudio ymlaen llawn a'u hadrodd yn eich gwasanaeth, efallai gyda rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol ychwanegol.

Mae'r adnodd Barddoniaeth ar gael yn hmd.org.uk/educators.

Caneuon

Os oes gennych gôr ysgol, edrychwch ar y taflenni caneuon a baratowyd gennym eleni yn hmd.org.uk/songs. Mae'r caneuon hyn ar gael i gorau a grwpiau cerdd eu dysgu a'u perfformio, a gallent fod yn rhan o'r gwasanaeth.

Adnoddau Cymraeg

www.schoolbeat.org/cy/partneriaid/diwrnod-cofior-holocost-2018/



Sgript i'r Gwasanaeth:

- **(Sleid 1)** I'w ddangos wrth i'r myfyrwyr ddod i mewn.
- **(Sleid 2)** Heddiw (27 Ionawr) yw Diwrnod Cofio'r Holocost. Diwrnod Cofio'r Holocost yw'r diwrnod bob blwyddyn pan gofiwn am y chwe miliwn o Iddewon a gafodd eu herlid a'u llofruddio'n systematig gan y Natsiaid a'u cydweithredwyr yn ystod yr Holocost.
- **(Sleid 3)** Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, rydym hefyd yn cofio am y grwpiau eraill o bobl a gafodd eu herlid a'u llofruddio gan y Natsiaid: pobl Roma a Sinti (sipsiwn), pobl anabl, pobl hoyw, Tystion Jehofa, gwrthwynebwyr gwleidyddol a llawer o bobl eraill.
- **(Sleid 4)** Diwrnod Cofio'r Holocost yw'r diwrnod pan gofiwn am y miliynau o ddynion, menywod a phlant, sydd wedi cael eu llofruddio yn yr hil-laddiadau wedi hynny yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.
- **(Sleid 5)** Ystyr hil-laddiad yw pan fydd grŵp o bobl yn cael ei dargedu i'w ddinistrio a hynny dim ond oherwydd pwy ydynt, megis eu hil neu eu crefydd.
- **(Sleid 6)** Nid yw hil-laddiad yn digwydd heb reswm, mae'n digwydd o ganlyniad i ragfarn ac erledigaeth pan fydd grŵp yn cael ei drin yn wahanol i weddill cymdeithas. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, cawn ein hatgoffa o'r hyn a all ddigwydd pan na chaiff rhagfarn nac erledigaeth eu herio, ac o'n cyfrifoldebau i wrthsefyll y prosesau hyn pan fyddwn yn eu gweld yn ein cymunedau ein hunain.

Daw'r graffeg hon o boster A3 sydd ar gael yn eich pecyn gweithgarwch am ddim –

www.schoolbeat.org/cy/partneriaid/diwrnod-cofior-holocost-2018/

neu hmd.org.uk. Peidiwch â phoeni am ddarllen yr holl destun ar y sleid yn eich gwasanaeth.

- **(Sleid 7)** Thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2018 yw **Grym geiriau**. Mae'r thema hon yn gofyn i bob un ohonon ni feddwl am y ffordd y mae geiriau wedi cael eu defnyddio er gwell ac er gwaeth. Gall geiriau gael eu defnyddio i wahaniaethu yn erbyn pobl, eu dad-ddyneiddio a'u dinistrio. Mae geiriau wedi cael eu defnyddio i helpu pobl i wrthsefyll, gwrthdystio, dogfenu eu profiadau a goroesi. Caiff geiriau eu defnyddio i ymateb i'r digwyddiadau gwaethaf yn ein hanes. Pa rym sydd i'n geiriau? Pa gyfrifoldeb sydd arnon ni i ddefnyddio grym ein geiriau er gwell heddiw?
- **(Sleid 8)** Iddew ifanc o'r Almaen oedd Henry Wermuth pan ddechreuodd yr Holocost. Rwyf am adrodd ei hanes i chi.

Opsiwn: Gallwch naill ai ddarllen stori bywyd lawn Henry Wermuth neu'r stori fyrrach, hawdd ei darllen, yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf priodol i'ch cynulleidfa. Mae'r ddwy ar gael ar waelod yr adnodd hwn. Gweler y nodiadau uchod i gael syniadau ynglŷn â sut i gael myfyrwyr i helpu i gyflwyno stori Henry yn eich gwasanaeth.



- **(Sleid 9)** Cafodd Henry a'i deulu eu targedu, a'u llofruddio, a hynny dim ond am eu bod yn Iddewon. Mae pobl yn dal i wynebu gwahaniaethu heddiw oherwydd eu crefydd, eu hil, eu rhywedd, neu elfen arall o'u hunaniaeth. Nawr eich bod wedi dysgu am Ddiwrnod Cofio'r Holocost, ac wedi clywed stori Henry, rwyf am ofyn i bob un ohonoch chi feddwl am ba mor beryglus y gall gwahaniaethu fod.
- **(Sleid 10)** Mae hil-laddiad yn digwydd ar hyn o bryd yn rhanbarth Darfur, sy'n rhan o wlad y Swdan yn Affrica. Mae llawer o'r bobl sy'n byw yno wedi dioddef yn enbyd, maen nhw wedi colli anwyliaid ac maen nhw wedi dysgu byw gyda marwolaeth.
- **(Sleid 11)** Gadewch i ni i gyd heddiw addo gwneud rhywbeth, dim ots pa mor fach, i wrthsefyll rhagfarn a phrosesau erledigaeth. Gadewch i ni ddysgu am ble mae hil-laddiad yn digwydd, y rhai sy'n dioddef a dweud wrth bobl eraill am yr hyn a ddysgwn.
- **(Sleid 12)** Byddwn yn gorffen drwy fyfyrion am ychydig wrth wrando ar y gerdd *The Butterfly*, a ysgrifennwyd gan Pavel Friedmann pan oedd wedi'i garcharu mewn gwersyll crynhoi. Yr actor Samuel Barnett sy'n ei hadrodd.

Mae'r recordiad o Samuel Barnett yn darllen *The Butterfly* ar gael yn:

hmd.org.uk/thebutterfly

- **(Sleid 13)** Diwedd



**HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST**

**YMDDIRIEDOLAETH
DIWRNOD
COFIO'R HOLOCOST**

**DYSGU GWERSI O'R GORFFENNOL
ER MWYN CREU DYFODOL
GWELL A MWY DIOGEL**

Rhagor o wybodaeth...

Adnoddau Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost i addysgwyr: hmd.org.uk/educators

Yr Holocost: hmd.org.uk/holocaust

hmd.org.uk

enquiries@hmd.org.uk

020 7785 7029

@hmd_uk

hmd.uk

@holocaustmemorialdaytrust

